**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (57)**

**Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2002**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Am 1.50pm bydd y Llywydd yn croesawu'r Anrhydeddus Peter Caruana QC, Prif Weinidog Gibraltar a fydd yn annerch Aelodau'r Cynulliad**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad Busnes: Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 3**
**Cynnig cyfansawdd i gymeradwyo dan Reol Sefydlog 22.25**:
***Ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn. Byddwn yn awr yn pleidleisio arno.***
*NDM996* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.5:

1. Yn cymeradwyo:
**Gorchymyn Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002; ac

2. Yn ystyried:
adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2002; a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mawrth 2002.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld Arfarniad Rheoliadol - Ar gael yn Saesneg yn unig

3. Yn cymeradwyo:
**Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002; a

4. Yn ystyried:
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2002.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

**Eitem 4**
**Cymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002**
*NDM992* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002.

*NDM991* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw’n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â’r gorchymyn drafft, Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2002;

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â:
(a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002; a
(b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2002.

Cliciwch yma i weld y rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau - Ar gael yn Saesneg yn unig
Cliciwch yma i weld y Memorandwm Cywiriadau

**Eitem 5**
**Dadl ar Wasanaethau Gofal Dydd i Blant dan 8 oed**
*NDM995* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu'r Rheoliadau* a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gwarchodwyr a gwasanaethau gofal dydd i blant dan 8 oed, a fydd yn sail i waith yr Arolygiaeth Safonau Gofal

o fis Ebrill eleni;

2. Yn nodi bod y Rheoliadau wedi'u cynllunio i roi amddiffyn cryfach i'r plant a roddir dan ofal y gwasanaethau gofal dydd hyn, ac i wella safon y gofal a gânt.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:*

(1) + (2)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn nodi bod yn rhaid ategu’r Rheoliadau a’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol hyn trwy roi gwell hyfforddiant a chefnogaeth i warchodwyr plant a darparwyr gwasanaethau gofal dydd.’

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn nodi y bydd angen mwy o lawer o arian cyhoeddus yn y tymor hir er mwyn sicrhau bod yr arferion gorau ym maes gofal plant yn cael eu rhoi ar waith ac er mwyn sicrhau bod gofal plant o ansawdd da ar gael i deuluoedd sydd o dan anfantais economaidd.’

*Gosodwyd copi o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2002.

Cafodd copïau o'r setiau o Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r cynnnig hwn eu hanfon drwy'r e-bost at bob Aelod ar 7 Mawrth 2002. Rhoddwyd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar y Rhyngrwyd ar 7 Mawrth 2002 a gellir eu gweld drwy ddefnyddio'r cysylltiadau isod:

**Cymraeg** http://cynulliad/wsubord/subordinate%20legislation/Part%205.htm - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

**English** http://assembly/subord/Subordinate%20Legislation/part_five.htm - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

*[Noder: Ni osodwyd Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 22.27 (i), (ii) a (iii)].*

Cliciwch yma i weld y Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002

**Eitem 6**
**Cymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 22.25, deddfwriaeth gysylltiedig:**
***Ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn. Byddwn yn awr yn pleidleisio arno.***
*NDM994* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

Yn cymeradwyo:

1. Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2002; a

2. Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2002.

*[Noder: Ni osodwyd Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 22.27 (i), (ii) a (iii)].*

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Arfarniad Rheoliadol - Ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 7**
**Dadl ar yr Adolygiad Pum Mlynedd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru**
*NDM993* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn croesawu cwblhau'r adolygiad pum mlynedd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhellion yr adolygiad.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

(1)
(2) + (3) + (4) + (5)

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Yn llinell 1 dileu'r gair "croesawu" a rhoi "nodi" yn ei le.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Yn llinell 1 dileu'r gair "croesawu" a rhoi "nodi" yn ei le.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu paragraff newydd:
Yn galw ar y Llywodraeth i fynd i'r afael â dyfodol tymor hir cyrff amgylcheddol yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, gyda golwg ar fynd i'r afael ag anghysonderau o safbwynt pwerau'r Cynulliad dros y cyrff hyn, yn ogystal ag unrhyw ddyblygu posibl neu ddryswch ynghylch eu swyddogaethau.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu paragraff newydd:
Yn galw ar y Llywodraeth i gyfarwyddo Cyngor Cefn Gwlad Cymru i arfer ei ddyletswyddau mewn ffordd sy'n hyrwyddo Datblygiad Cynaliadwy yn unol ag Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu paragraff newydd:
Yn galw ar y Llywodraeth i gyfarwyddo Cyngor Cefn Gwlad Cymru i ddehongli ei gyfrifoldeb dros y dirwedd mewn ffordd sy'n caniatáu datblygiadau priodol.

*Gallwch weld fersiynau Cymraeg a Saesneg o Adroddiad Interim ac Adroddiad Terfynol yr Adolygiad Pum Mlynedd ar y Fewnrwyd drwy ddefnyddio'r cysylltiadau isod ac fe'u hanfonwyd at yr holl Aelodau drwy'r e-bost ar 12 Mawrth 2002.*

*Anfonwyd ymateb y Cabinet i'r Adolygiad Pum Mlynedd drwy'r e-bost at yr holl Aelodau ar 12 Mawrth 2002.*

**Adroddiad interim**

Cymraeg http://www.cymru.gov.uk/subieconomics/content/countrysidecouncil/ccw_report_w.pdf - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

Saesneg http://www.wales.gov.uk/subieconomics/content/countrysidecouncil/contents_e.htm - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

**Adroddiad terfynol**

Cymraeg http://www.cymru.gov.uk/subieconomics/content/countrysidecouncil/final/cover-w.htm - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

Saesneg http://www.wales.gov.uk/subieconomics/content/countrysidecouncil/final/cover-e.htm - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

Cliciwch yma i weld *Ymateb* y *Cabinet i'r Adolygiad Pum Mlynedd*

**Eitem 8**
**Dadl ar gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Mesurau**
*NDM997* - Mae'r Cynulliad Cenedlaethol (gan weithredu o dan Reol Sefydlog 31.9):

1. Yn cefnogi cynigion y Cabinet ar gyfer Mesurau yn y sesiwn Seneddol nesaf fel y'u nodwyd yn y ddogfen a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2002;

2. Yn gofyn i'r Cabinet drafod y cynigion hyn â Llywodraeth y DU, a phwyso am ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n adlewyrchu anghenion penodol Cymru ac yn parchu rôl y Cynulliad.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

(1) + (2) + (3) + (4) + (5) + (6) + (7)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ar ôl 'Mawrth 2002' ym mhwynt 1, ychwanegu:
", ac yn galw ar y Llywodraeth i roi cynnig arall gerbron ar gyfer Mesur Gweithwyr y Sector Cyhoeddus, er mwyn amddiffyn buddiannau pobl sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ar hyn o bryd."

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ar ôl 'Mawrth 2002' ym mhwynt 1, ychwanegu:
", ac yn galw ar y Llywodraeth i roi cynnig arall gerbron ar gyfer Mesur Tai (Cymru), er mwyn diwallu anghenion penodol Cymru o ran tai."

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ar ôl 'Mawrth 2002' ym mhwynt 1, ychwanegu:
", ac yn galw ar y Llywodraeth i roi cynnig ychwanegol gerbron ar gyfer deddfwriaeth i ddileu ffïoedd dysgu ym maes Addysg Uwch."

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ar ôl 'Mawrth 2002' ym mhwynt 1, ychwanegu:
", ac yn galw ar y Llywodraeth i roi cynnig ychwanegol gerbron ar gyfer deddfwriaeth sy'n rhoi pwerau cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddo'r awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd er mwyn cyrraedd nodau penodol."

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ar ôl 'Mawrth 2002' ym mhwynt 1, ychwanegu:
", ac yn galw ar y Llywodraeth i roi cynnig ychwanegol gerbron ar gyfer deddfwriaeth sy'n ymwneud ag asiantaethau amgylcheddol yng Nghymru: a fydd yn datganoli swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn golygu y gellir integreiddio'r Cyrff Cyhoeddus amgylcheddol a Noddir gan y Cynulliad yn un corff."

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ar ôl 'Mawrth 2002' ym mhwynt 1, ychwanegu:
", ac yn galw ar y Llywodraeth i roi cynnig ychwanegol gerbron ar gyfer deddfwriaeth i gryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg."

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi â siom nad yw Llywodraeth y DU wedi gweithredu penderfyniad unfrydol y Cynulliad o blaid gwneud Dydd Gwyl Dewi yn wyl y banc yng Nghymru, ac nad yw wedi gwahardd hysbysebu tybaco yng Nghymru.

Cliciwch yma i weld Cynigion y Cabinet ar gyfer Deddfwriaeth Sylfaenol

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 21 Mawrth 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**